Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Y Gwir. Anrh. Alun Cairns AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Swyddfa Cymru
1 Pwynt Caspian
Ffordd Caspian
Caerdydd
CF10 4DQ

14/07/2016

Annwyl Alun

**Y Bil Cymru Arfaethedig**

Ysgrifennaf i fynegi rhai pryderon ynghylch effeithiau posibl y Bil Cymru arfaethedig ar y Gymraeg, gan obeithio y byddwch yn medru lleddfu'r pryderon hynny trwy gynnig atebion i'r cwestiynau nodir isod. Mae fy mhryderon yn ymwneud â photensial y Bil Cymru arfaethedig i rwystro gweithrediad llawn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac i gyfyngu ar bwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu dros y Gymraeg.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyflwyno drwy reoliadau dyletswyddau statudol yn ymwneud â'r iaith Gymraeg, sef Safonau'r Gymraeg, ac i wneud y dyletswyddau hynny'n benodol gymwys i ystod eang o bersonau. Mae gwneud hynny yn ei dro yn caniatáu i mi hysbysu personau perthnasol ei fod yn ofynnol iddynt gydymffurfio â'r dyletswyddau a gyflwynwyd, i osod amserlen ar gyfer cydymffurfio ac i orfodi cydymffurfiaeth lle bo angen. Caniateir gan y Mesur hwnnw ar gyfer gwneud dyletswyddau'n benodol gymwys i Weinidogion y Goron ond os yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cydsynio i hynny.

Mae Atodlen 1 y Bil Cymru arfaethedig yn rhestru'r materion hynny sydd wedi eu cadw yn ôl. Nodir ym mharagraff 200 yr atodlen honno nad yw gosod swyddogaethau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg ar berson, neu orfodi, newid neu ddileu swyddogaeth o'r fath, yn fater sydd wedi ei gadw yn ôl, heblaw mewn perthynas â'r llysoedd.

Mae Atodlen 2, paragraff 8 y Bil Cymru arfaethedig ('Cyfyngiadau Cyffredinol') yn nodi na chaiff Deddf y Cynulliad Cenedlaethol gynnwys darpariaeth ar gyfer gosod swyddogaeth ar Weinidog y Goron, neu orfodi, newid neu ddileu swyddogaeth Gweinidog y Goron,

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

heblaw bod y Gweinidog perthnasol wedi cydsynio i hynny. Mae hynny'n gyson â darpariaethau Mesur y Gymraeg(Cymru) 2011. Ond ar ben hynny mae'r Bil arfaethedig hefyd yn nodi'r angen am gydsyniad y Gweinidog perthnasol ar gyfer gosod swyddogaeth ar adran o'r llywodraeth neu awdurdod sydd heb ei ddatganoli, neu ar gyfer gorfodi, newid neu ddileu swyddogaeth ar y personau hynny. Ymddengys felly, pe bai'r Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu deddfu ar gyfer y Gymraeg yn y dyfodol, yn dilyn pasio'r Bil Cymru hwn, na ellid cynnwys yn y ddeddf honno ddarpariaeth ar gyfer gosod, gorfodi, newid neu ddileu swyddogaeth yn ymwneud â'r Gymraeg ar yr holl ystod hynny o bersonau, heb gydsyniad y Gweinidog perthnasol. Os yw hynny'n gywir, yna ni fedrai'r Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu ar gyfer y Gymraeg yn dilyn pasio'r Bil Cymru hwn heb wneud hynny o fewn cyd-destun lle fo'i bwerau wedi eu cyfyngu'n sylweddol o ran adrannau'r llywodraeth ac awdurdodau sydd heb eu datganoli. Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn cadarnhau bod hynny'n ddehongliad cywir o effaith tebygol paragraff 8, Atodlen 2 y Bil Cymru arfaethedig ar y Gymraeg. Os felly, gwerthfawrogwn dderbyn eglurhad dros y penderfyniad i gyfyngu pwerau'r Cynulliad mewn perthynas â'r Gymraeg fel hyn.

Os yw fy nehongliad yn gywir yna byddai hynny'n achos pryder difrifol o ystyried bod adrannau'r llywodraeth ac awdurdodau sydd heb eu datganoli yn darparu ystod eang iawn o wasanaethau i bobl Cymru, gwasanaethau y mae'n rhaid i lawer o unigolion eu defnyddio ac sydd wedi bod ar gael yn Gymraeg ers cryn amser.

Ofnaf y byddai paragraff 8, Atodlen 2 y Bil Cymru arfaethedig, yn sgil pasio'r Bil, yn arwain rhai adrannau'r llywodraeth ac awdurdodau sydd heb eu datganoli i gwestiynu pŵer y Cynulliad i wneud swyddogaethau yn ymwneud â'r Gymraeg yn benodol gymwys iddynt dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, heb i Weinidog perthnasol Llywodraeth y DU gydsynio i hynny. Carwn dderbyn cadarnhad gennych na fyddai pasio'r Bil Cymru arfaethedig yn effeithio ar weithrediad Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fel hyn nac mewn unrhyw ffordd arall.

Mae paragraff 11(1)(b), Atodlen 2 y Bil Cymru arfaethedig yn nodi na chaiff Deddf y Cynulliad Cenedlaethol ddileu neu newid swyddogaeth yn ymwneud â'r Gymraeg ar Weinidog y Goron, heblaw bod y Gweinidog perthnasol wedi cydsynio i hynny. Byddwn yn ddiolchgar am eglurhad am y rhesymau dros gyfeirio'n benodol at swyddogaethau yn ymwneud â'r Gymraeg yn y paragraff yma. Hoffwn wybod hefyd os oes unrhyw reswm pam fod rhan yma'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad geisio cydsyniad y Gweinidog perthnasol er mwyn newid neu ddileu swyddogaeth yn ymwneud â'r iaith Gymraeg ar Weinidog y Goron, yn hytrach na'i wneud yn ofynnol i'r Cynulliad ymgynghori â'r Gweinidog perthnasol, fel sy'n ofynnol ar gyfer dileu neu newid rhai mathau eraill o swyddogaethau ar Weinidog y Goron.

Yn olaf, ac ar fater arall, gwerthfawrogwn dderbyn diweddariad ar gynnydd wrth weithredu'r argymhelliad canlynol gan y Comisiwn Silk mewn perthynas â'r iaith Gymraeg:

'*Credwn y dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru adolygu pob un o'r meysydd a grybwyllwyd gan y Comisiynydd gyda golwg ar ddiwygio'r gyfraith i roi statws cyfartal i'r Gymraeg. Yn fwy cyffredinol, credwn y dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig a*

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

*Llywodraeth Cymru asesu'n systematig sut y defnyddir y Gymraeg ar draws y llywodraeth ac yna cadw golwg ar y sefyllfa'n barhaus*.'

Ysgrifennais y llynedd at eich rhagflaenydd ynghylch y mater yma a nodwyd y canlynol yn yr ymateb a dderbyniais ym mis Rhagfyr:

*'Bydd y Llywodraeth yn parhau i chwilio am gyfleoedd i ddiwygio deddfwriaeth nad yw'n rhoi statws cyfartal i'r iaith Gymraeg. Mae hyn y cynnwys deddfwriaeth gofrestru lle mae'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol, rhan o Swyddfa Basbort EM, yn gweithio gyda Swyddfa Cymru a Llywodraeth Cymru i chwilio am gyfleoedd deddfwriaethol addas i gyflwyno diwygiadau.'*

Gwerthfawrogwn dderbyn diweddariad ar gynnydd ers mis Rhagfyr diwethaf wrth weithredu'r argymhelliad yma, yn ogystal ag ymateb i'r pwyntiau a godir uchod ynghylch y Bil Cymru arfaethedig. Gan fod y Bil arfaethedig yn teithio'n gyflym trwy Senedd y DU, gwerthfawrogwn dderbyn ymateb prydlon i'r pwyntiau a godir os gwelwch yn dda.

Yr eiddoch yn gywir,

Meri Huws

**Meri Huws**
Comisiynydd y Gymraeg

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org